# Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 25 Mehefin 2011 yn Nhŷ Cwrdd y Pales

**2011.16 Addoli Agoriadol a Chroeso**
Mae adrannau 23.02 a 23.06 *Quaker faith and practice* wedi'u darllen yn ystod ein haddoli agoriadol. Mae'n bleser cael croesawu 41 o Gyfeillion yma heddiw, fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Rydym hefyd yn croesawu Alistair Fuller, ein siaradwr, a Heather Powell, sydd yma fel ymwelydd. Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fod yn bresennol:

Gogledd Cymru: Frank Brown
Canolbarth Cymru: Dorothy Bell
De Cymru: Lynn Moseley
Gororau'r De: David Binney, Kate Binney

Nid oes unrhyw Gyfeillion wedi'u penodi'n Henaduriaid ar gyfer y cyfarfod hwn.

**2011.17 *Calon* a *The Friend***

Mae Ros Morley wedi cytuno i ysgrifennu adroddiad ar y cyfarfod hwn i *The Friend* ac i adrodd i *Calon*.

**2011.18 Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol**

Mae mynychwr yng Nghanada wedi cysylltu â ni i ofyn i ni gydnabod Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol (Mai 15). Atododd gerdd a ysgrifennwyd ganddo, yn dwyn y teitl '*White Feather'*. Cytunwn i nodi'r dyddiad ar ein gwefan ac i dynnu sylw Cyfeillion at y dyddiad yn ein cyfarfod ym mis Chwefror. Byddwn hefyd yn nodi'r dyddiad 18 Mai ar ein gwefan - dyma Ddiwrnod Ewyllys Da'r Urdd pan fydd pobl ifainc yn anfon negeseuon ewyllys da ar draws y byd.

**2011.19 Effeithiau toriadau'r llywodraeth i fudd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus**

1 Ioan 4:18 (Y Beibl Cymraeg Newydd (Diwygiedig))
*Nid oes ofn mewn cariad ond y mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn.*

Rydym wedi cynnal trafodaeth ar y dystiolaeth a welwyd gennym ar y ffordd y mae toriadau'n effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru.

Bu Adroddiad Comisiwn Holtham (2010) yn dangos bod y cyllid y mae Cymru'n ei dderbyn yn gymharol isel ac yn ystod y pedair blynedd nesaf rydym yn disgwyl deuddeg y cant yn rhagor mewn toriadau.

Rydym wedi clywed enghreifftiau o ofn, pryder a straen, wedi'u hachosi'n rhannol gan yr hyn sydd eisoes yn digwydd ac yn rhannol gan ofn yr anhysbys. Wrth boeni am y rhai yr effeithir arnynt gan y toriadau, rhaid i ni gofio'r penderfynwyr, sydd fwy na thebyg o dan straen eu hunain ac sy'n gorfod gwneud penderfyniadau pellgyrhaeddol ac anodd iawn.

Effeithir yn arbennig ar rieni sengl, y rheini sy'n derbyn budd-daliadau anabledd a'r rheini sy'n ceisio gwella eu bywydau drwy addysg.

Bydd colledion swyddi yn y sector cyhoeddus yn effeithio ar ferched yn benodol. Mae'r effaith ar ferched yn anghyfartal mewn amryw o ffyrdd.

Rhaid ystyried ardaloedd gwledig ar wahân i ardaloedd dinesig, a gwlad wledig yn bennaf yw Cymru.

Rydym wedi nodi bod rhyfela'n ddrud iawn a byddai'n dda gennym pe gallai'r arian a wariwyd ar ryfel fod wedi'i ddefnyddio at rywbeth gwell.

Rydym hefyd yn teimlo bod y problemau economaidd presennol yn dangos sut y mae'r dyfodol yn debygol o fod, o ystyried nad yw adnoddau'r blaned yn ddihysbydd. Mae angen rhannu adnoddau'n fwy cyfartal.

Mae gan y Cyfeillion hanes anrhydeddus o weithredu cymdeithasol mewn ardaloedd difreintiedig, yn arbennig ym Mryn Mawr ac yn y Rhondda yn y 1930au. Rhaid i ni fod yn barod i helpu eto mewn ffordd ymarferol, efallai fel gwirfoddolwyr mewn canolfannau galw heibio i bobl ifainc ddi-waith, neu drwy ailgyflwyno rhywbeth tebyg i'r ceginau cawl erstalwm.

Rydym yn gofyn i'n clercod ysgrifennu llythyr at Rowan Williams, Archesgob Caergaint, yn cefnogi byrdwn neges ei erthygl yn y *New Statesman* gan anfon copi o'r llythyr at Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru).

Byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn ymhen blwyddyn.

Rydym yn anfon y cyfnod hwn at y Cyfarfod Dioddefiadau gan obeithio y bydd y Cyfarfod Dioddefiadau'n mynegi'n gyhoeddus deimladau Cyfeillion am y ffordd y mae'r toriadau'n cael eu rhoi ar waith.

**2011. 20 Rhestrau Gysylltiadau Cyfarfodydd Ardal**

Yn ein cyfarfod ym mis Hydref y llynedd (cofnod 2010.36) cytunwyd i brynu rhestrau o aelodau a mynychwyr o'r pedwar cyfarfod ardal, a'u dosbarthu i Gyfeillion sydd eu hangen ar gyfer eu gwaith â Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ac i Gyfeillion a ofynnodd amdanynt. Nid oedd rhestrau cysylltiadau ar gael gan Gyfarfod Ardal De Cymru, ond prynwyd y rhestrau eraill a'u dosbarthu yn ôl yr angen. Rydym yn cytuno i wneud hyn eto. Gobeithiwn y bydd Cyfarfod Ardal De Cymru'n cynhyrchu rhestr eleni gan ofyn am help os bydd rhaid.

**2011. 21 Y Cyfarfod Dioddefiadau**

Mae Dave Butler wedi adrodd ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mehefin. Bydd y ddau adroddiad yn cael eu ffeilio gyda'r cofnodion hyn a'u rhoi ar y wefan. Ym mis Ebrill, cytunodd y Cyfarfod Dioddefiadau i foicotio nwyddau o aneddiadau Israelaidd ym Mhalesteina feddianedig. Mae llawer o gyfarfodydd ardal wedi anfon cofnodion yn cefnogi'r boicot. Rydym yn gofyn i Gyfeillion gysylltu ag archfarchnadoedd lleol i holi beth yw tarddiad eu nwyddau, ysgrifennu llythyrau i'r wasg a chofio y gellir defnyddio *Calon* i roi gwybod i Gyfeillion beth y mae cyfarfodydd/cyrddau yn eu gwneud. Mae Cyfeillion yn cydweithio â grwpiau sy'n hyrwyddo heddwch yn Israel ac ar y Lan Orllewinol. Mae angen i ni gofio y bydd cefnogaeth ariannol i'r rhaglen Hebryngwyr Eciwmenaidd yn helpu'r sefyllfa.

**2011.22 Tystiolaeth**

Rydym wedi clywed rhan o'r Dystiolaeth i Ras Duw fel a ddangosir ym mywyd Malcolm Thomas.

**2011.23 Cofnod Gogledd Cymru i'r Cyfarfod Dioddefiadau ynglŷn â chefnogaeth i gyfarfodydd ardal**

Ym mis Ionawr 2011 anfonodd Cyfarfod Ardal Gogledd Cymru Gofnod (Rhif 28) i'r Cyfarfod Dioddefiadau'n gofyn am fwy o gefnogaeth ganolog i gyfarfodydd ardal. Rydym yn gwybod bod Cyfeillion yn chwilio am gefnogaeth yn eu bywydau ysbrydol a bod aelodaeth sy'n cael ei chymryd o ddifrif yn gwneud offeiriaid (neu glerigwyr) ohonom i gyd. Mae'n rhaid atgoffa Cyfeillion o rwymedigaethau aelodaeth ac i gyflawni eu hoffeiriadaeth. Mae angen mwy o gefnogaeth ganolog ar Gyfarfodydd Ardal.
Rydym yn anfon y cofnod hwn at y Cyfarfod Dioddefiadau.

**2011.24 Adroddiad Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc**

Mae Kate Binney wedi adrodd i ni. Cyfarfu Eiriolwyr Cymru ym mis Gorffennaf y llynedd ac ym mis Chwefror eleni. Gallent goladu gweithgareddau â phlant ar draws Cymru. Problem gyffredin yw dod o hyd i Gyfeillion sydd â'r amser a'r egni i gymryd rhan mewn gwaith â phlant a phobl ifainc. Mae cyfarfodydd Cymru gyfan yn help o ran cynnal ein sylw ac annog ein gilydd. Roedd yn fuddiol bod dau rifyn o *Calon* yn canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifainc.

**2011.25 Cytûn**

Mae Catherine James wedi adrodd bod cynrychiolaeth Cytûn yn Eisteddfod yr Urdd wedi gweithio'n dda eleni, a bydd Catherine yn bresennol ar stondin Cytûn yn y Sioe Frenhinol. Ceir rota caplaniaid fel y bydd caplan yn bresennol ym mhob digwyddiad mawr ar faes y Sioe Frenhinol. Roedd Catherine wedi'n cynrychioli yn seremoni orseddu Archesgob Catholig newydd Caerdydd.

**2011.26 Yr Eisteddfod Genedlaethol**

Mae Maria Haines wedi rhoi'r diweddaraf i ni ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer presenoldeb y Crynwyr ym mhabell Cytûn. Mae'n edifar gennym fod Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ar yr un dyddiadau â'r Eisteddfod Genedlaethol gan fod hyn yn cwtogi ar nifer y Cyfeillion sydd ar gael i'n cynrychioli. Eleni bydd ardal dawel yn rhan o babell Cytûn y bydd Crynwyr yn gyfrifol amdani. Rydym yn diolch i Maria am y gwaith a wneir ganddi ar ein rhan.

**2011.27 Yn byw Ffordd y Crynwyr**

Cynhaliwyd y cyntaf o'r cyfarfodydd hyn ar 21 Mai ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar thema *Gosod Seiliau Ffordd y Crynwyr yn Ysbrydol*. Cyfarfod da iawn oedd hwn ond ni fu fawr o bobl yn ei fynychu. Bydd y cyfarfod nesaf ar 16 Gorffennaf yn y Fenni, ar thema *Byw Ffordd y Crynwyr fel Cymuned*. Rydym yn diolch i Christine Trevett am adrodd ar y cyfarfod cyntaf.

**2011.28 Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol**

Cynhelir Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol yng Nghaergaint 30 Gorffennaf tan 6 Awst. Cynaliadwyedd fydd y brif thema. Bydd nifer o Gyfeillion o'r cyfarfod hwn yn bresennol a byddwn yn trafod y digwyddiad yn ein cyfarfod nesaf. Rydym yn gofyn i Pam Willson adrodd yn ôl i ni.

**2011. 29 Adroddiad Cyngor Cynrychiolwyr *Quaker Life***

Bu Liz Butler yn mynychu Cyngor Cynrychiolwyr *Quaker Life* ym mis Ebrill. Cafodd Cyfeillion eu hannog i ymweld â Phlas Swarthmoor a rhoddwyd llyfryn defnyddiol newydd iddynt am ymweld â byd 1652. Ceir llyfryn o'r teitl *Sharing our Journeys* a allai fod yn offeryn buddiol iawn mewn cyfarfodydd.

**2011.30 Dathlu Ffordd y Crynwyr yng Nghymru** (mae cofnodion 2010.19, 2010.32 a 2011.05 yn cyfeirio)

Ar 24 Mehefin bu y Grŵp Prosiectau'n cwrdd â dau gynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree (YEJR) i drafod ein cais. Bydd y cais yn dod gerbron ymddiriedolwyr YEJR ar 9 Gorffennaf. Os oes unrhyw Gyfaill yn adnabod rhywun sy'n deall proses dechnegol cynhyrchu DVD byddai'n fuddiol (rhowch wybod i Deborah Rowlands (01570 480083 neu Deborah.rowlands@btinternet.com . Gwahoddir Cyfeillion i anfon darnau byr sy'n siarad o'r galon am eu siwrneiau ysbrydol. Dylid anfon y cyfraniadau hyn at Rhian Parry, Tytandderwen, Pencefn, Dolgellau, LL40 2ER neu barryg.allcott@btinternet.com.

**2011. 31 Enwebiadau a Phenodiadau**

(i) Yn ein cyfarfod diwethaf penodwyd Awel Jones i'r grŵp llyfrau sy'n gweithio ar Ddathlu Ffordd y Crynwyr. Camgymeriad oedd hwn ac mae wedi'i rhyddhau o'r penodiad.

(ii) Rydym wedi ein gwahodd i anfon cynrychiolydd i De Croeso Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ym Miwmares ar 1 Gorffennaf ac mae Gwyneth Hewitson wedi'i phenodi drwy benderfyniad rhwng cyfarfodydd.

(iii) Mae ein Pwyllgor Enwebiadau yn dod gerbron enw Deborah Rowlands i wasanaethu fel **aelod o Fwrdd Cytûn** o 1 Tachwedd am dair blynedd. A bod yr enw hwn yn dderbyniol, fe'i hanfonir at Fwrdd Cytûn.

(iv) **Cais am Enwebiadau**

Rydym yn nodi bod y penodiadau canlynol yn wag ac yn gofyn i Bwyllgor Enwebiadau chwilio am Gyfeillion i wasanaethu.
**Cyd-glerc** (i ddod i ben 2013)
**Clerc cynorthwyol** (i ddod i ben 2014)
**Pwyllgor Materion Rhyngwladol Cytûn** - (i ddod i ben 2013)
**Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd y Crynwyr (QCCIR)** – un swydd wag (i ddod i ben 2012)
**Ymddiriedolwr** – (i ddod i ben 2014)
**Golygydd Calon** – (i ddod i ben 2014)
**Cyllid Cytûn** – (i ddod i ben 2014)
**Un aelod ar gyfer y Pwyllgor Cyhoeddiadau** – (i ddod i ben 2014)
**Un aelod o'r Pwyllgor Trefniadau** - (i ddod i ben 2014)

**2011.32 Yn dyner ac yn hael, sut gallwn ni rannu ein stori fel Crynwyr.**

Swyddog Datblygu Ymestyn Allan *Quaker Life* yw Alistair Fuller ac mae wedi rhoi sgwrs ysbrydoledig i ni am Ymestyn Allan. Ymestyn allan yw'r posibilrwydd o adael i bobl ddarganfod Crynwriaeth. Dydyn ni ddim yn cynnig credoau, rydym yn cynnig ffordd o fyw. Beth sy'n denu rhywun i Grynwriaeth? Drwy gwrdd â Chyfeillion, fel arfer. Ein cryfder mawr yw bod ein bywydau'n integredig – rydym yn byw ein ffydd.

Tri chwestiwn defnyddiol yw:

Beth wnaeth fy nenu?
Beth wnaeth fy nal?
Beth sy'n fy nal o hyd?

Wrth ystyried y cwestiynau hyn efallai y gallwn ddal y drws yn agored am ddigon hir i bobl gael hyd i'w ffordd i mewn.

Rydym yn diolch i Alistair am roi mor hael o'i amser.

Julia Aspden
Clerc